

## Cwestiynau Cyffredin

### **Beth yw'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig?**

Mae'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig yn ymchwiliad cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd i archwilio'r amgylchiadau pan roddwyd cynhyrchion gwaed heintiedig i ddynion, menywod a phlant a gafodd driniaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y Deyrnas Unedig rhwng 1970 a 1991.

Cyhoeddir Adroddiad Terfynol yr Ymchwiliad yn y Neuadd Ganolog, San Steffan, ar 20 Mai 2024.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr Ymchwiliad ar wefan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig [yma](#).

### **Sut digwyddodd hyn?**

Cyn 1991, roedd gan rai rhoddwyr gwaed HIV a/neu Hepatitis C ac arweiniodd hyn at heintio rhai derbynwyr.

Ers 1985 mae'r holl waed a roddir yn y DU wedi'i brofi'n rheolaidd am HIV ac ers mis Medi 1991 mae'r holl waed a roddir yn y DU wedi'i brofi'n rheolaidd am Hepatitis C.

### **Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i anhwylder gwaedu etifeddol a bod angen cymorth neu gyngor arna i?**

Os hoffech gael cymorth ynghylch unrhyw faterion sy'n cael eu codi gan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig, cysylltwch â tîm Rhwydwaith Anhwylder Gwaedu Cymru yn y Ganolfan Haemoffilia ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r tîm wedi sefydlu llinell ffôn ac e-bost wedi'u neilltuo i gefnogi cleifion a'u teuluoedd yr effeithir arnynt ac sydd wedi'u heintio gan gynhyrchion gwaed heintiedig ledled Cymru. Bydd y rhain yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 4pm.

E-bost: [BDNW.InfectedBloodInquiry.Cav@wales.nhs.uk](mailto:BDNW.InfectedBloodInquiry.Cav@wales.nhs.uk)

Ffôn: 0800 952 0055

Bydd y tîm yn ymateb i'ch galwad ac yn darparu cymaint o help â phosibl wedi'i deilwra i'ch anghenion unigol. Byddwch yn cael eich cyfeirio yn unol â hynny at wasanaethau priodol gan gynnwys cymorth seicolegol, cymorth cymdeithasol a chymorth lles. Bydd hefyd yn gallu eich cyfeirio at gofnodion meddygol.

Fel arall, gallwch gysylltu â Haemoffilia Wales drwy [info@haemoffiliawales.org](mailto:info@haemoffiliawales.org) neu drwy eu ffurflen gyswilt ar-lein [yma](#).

## **Pwy gafodd ei effeithio ac a allwn i fod wedi fy heintio?**

Byddwch yn dawel eich meddwl bod y risg yn parhau i fod isel hyd yn oed os cawsoch drallwysiad gwaed cyn 1991. Fodd bynnag, mae siawns fach y gallech fod wedi'ch heintio os ydych chi:

- wedi derbyn trallwysiad gwaed neu gynnyrch gwaed cyn Medi 1991
- wedi cael trawsblaniad organ cyn 1992

## **Cefais drallwysiad gwaed neu gynnyrch gwaed cyn Medi 1991, neu drawsblaniad organ cyn 1992. Oes angen i mi gymryd unrhyw gamau?**

Mae'r risg yn isel os ydych chi:

- wedi derbyn trallwysiad gwaed neu gynnyrch gwaed cyn Medi 1991
- wedi cael trawsblaniad organ cyn 1992

Fodd bynnag, os ydych chi neu anwylyd yn poeni neu os oes gennych unrhyw bryderon, mae Tîm Pryderon Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gael i drafod hyn gyda chi.

I gysylltu â'r Tîm Pryderon, gallwch:

Ffonio: 01443 744915

E-bostio: [CTHB\\_Concerns@wales.nhs.uk](mailto:CTHB_Concerns@wales.nhs.uk)

Os ydych yn byw y tu allan i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd. Mae rhestr o'r holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru i'w gweld [yma](#).

## **Dw i'n poeni am drallwysiad gwaed a gefais cyn Medi 1991. Beth ddylwn i ei wneud?**

Mae'r risg o ddal haint yn dilyn trallwysiad gwaed yn isel iawn ond os ydych yn pryderu am eich risg, gallwch gael mynediad at brawf cyfrinachol am ddim ar gyfer Hepatitis C a HIV gan Iechyd Cyhoeddus Cymru [yma](#).

Mae rhagor o wybodaeth am Hepatitis C ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru [yma](#).

Gallwch hefyd wirio'ch symptomau ar Wiriwr Symptomau GIG 111 Cymru [yma](#).

## **Dw i'n ansicr am amseriad trallwysiad gwaed. Sut alla i gael gwybod?**

Os ydych yn ansicr a gawsoch drallwysiad gwaed cyn mis Medi 1991, gallwch gysylltu â'r bwrdd iechyd i weld eich cofnodion iechyd drwy:

Ffôn: 01443 744915

E-bost: [CTHB\\_Concerns@wales.nhs.uk](mailto:CTHB_Concerns@wales.nhs.uk)

Os cawsoch driniaeth y tu allan i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Caerdydd a Bro Morgannwg, cysylltwch â'r Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth lle cawsoch eich triniaeth.

- Mae rhestr o'r holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru i'w gweld [yma](#).
- Mae cyfeiriadur o Ymddiriedolaethau GIG Lloegr ar gael [yma](#).
- Mae cyfeiriadur o Fyrddau Iechyd GIG yr Alban ar gael [yma](#).
- Mae cyfeiriadur o Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon ar gael [yma](#).

## **Rydw i wedi cael trallwysiad gwaed yn ddiweddar. Ydw i mewn perygl?**

Mae'r holl roddion gwaed yn y DU yn cael eu profi'n rheolaidd am ystod o heintiau posibl, gan gynnwys Hepatitis B, C ac E, a HIV. Mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o ddal haint o drallwysiad gwaed yn hynod o isel.

Ers 1985 mae'r holl waed a roddir yn y DU wedi'i brofi'n rheolaidd am HIV ac ers mis Medi 1991 mae'r holl waed a roddir yn y DU wedi'i brofi'n rheolaidd am Hepatitis C.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch a sgrinio gwaed ar wefan Grŵp Goruchwyllo Cenedlaethol Iechyd Gwaed [yma](#) neu ar wefan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG [yma](#).

## **Ydy hi'n ddiogel derbyn trallwysiad gwaed, cynnyrch gwaed neu organ a roddwyd nawr?**

Mae gwaed a chyfansoddion gwaed yn cael eu rhoi gan wirfoddolwyr iach, di-dâl ac mae'r risg y bydd uned heintiedig yn mynd i mewn i gyflenwad gwaed y DU yn hynod o isel.

Mae rhoddwyr yn llenwi holiadur iechyd bob tro y byddant yn rhoi ac mae rhoddion gwaed yn cael eu profi bob tro am ystod o heintiau posibl. Mae hyn yn golygu bod y siawns o drosglwyddo unrhyw haint yn isel iawn.

Ers 1985 mae'r holl waed a roddir yn y DU wedi'i brofi'n rheolaidd am HIV ac ers mis Medi 1991 mae'r holl waed a roddir yn y DU wedi'i brofi'n rheolaidd am Hepatitis C.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch a sgrinio gwaed ar wefan Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol Iechyd Gwaed [yma](#) neu ar wefan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG [yma](#).

Cyn 1992 nid oedd organau a roddwyd yn cael eu sgrinio'n rheolaidd ar gyfer Hepatitis C ac mae risg fach iawn y gallai organ a roddwyd gan rywun â Hepatitis C ledaenu'r haint.

## **Rydw i wedi fy heintio neu fy effeithio / mae anwylyd wedi'i heintio neu ei effeithio. Pa gefnogaeth sydd ar gael?**

### **Rhwydwaith Anhwylder Gwaedu Cymru**

Os hoffech gael cymorth ynghylch unrhyw faterion sy'n cael eu codi gan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig, cysylltwch â tîm Rhwydwaith Anhwylder Gwaedu Cymru yn y Ganolfan Haemoffilia ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r tîm wedi sefydlu llinell ffôn ac e-bost wedi'u neilltuo i gefnogi cleifion a'u teuluoedd yr effeithir arnynt ac sydd wedi'u heintio gan gynhyrchion gwaed heintiedig ledled Cymru. Bydd y rhain yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 4pm.

E-bost: [BDNW.InfectedBloodInquiry.Cav@wales.nhs.uk](mailto:BDNW.InfectedBloodInquiry.Cav@wales.nhs.uk)

Ffôn: 0800 952 0055

Bydd y tîm yn ymateb i'ch galwad ac yn darparu cymaint o help â phosibl wedi'i deilwra i'ch anghenion unigol. Byddwch yn cael eich cyfeirio yn unol â hynny at wasanaethau priodol gan gynnwys cymorth seicolegol, cymorth cymdeithasol a chymorth lles. Bydd hefyd yn gallu eich cyfeirio at gofnodion meddygol.

Fel arall, gallwch gysylltu â Haemoffilia Wales drwy [info@haemoffiliawales.org](mailto:info@haemoffiliawales.org) neu drwy eu ffurflen gswllt ar-lein [yma](#).

### **Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru**

Nod Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yw darparu cymorth i bobl sydd wedi'u heintio â Hepatitis C a/neu HIV o ganlyniad i driniaeth â gwaed gan y GIG yng Nghymru.

Ei nod yw darparu gwasanaeth taliadau ariannol symlach, gwasanaeth cyngor lles a gwasanaeth seicoleg a lles i fuddiolwyr Cymru a'u teuluoedd.

Mae Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn rhedeg eu cynlluniau cofrestredig unigol eu hunain. Yng Nghymru, gall unrhyw un a gafodd trallwysiad heintiedig mewn ysbyty yng Nghymru, waeth beth fo'i breswylfa bresennol, wneud cais i fod ar Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru.

I gofrestru ar gynllun:

- Bydd rhaid i chi gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar wefan WIBSS;
- Bydd yn rhaid i chi gael eich cais wedi'i gymeradwyo gan weithiwr meddygol proffesiynol;
- Bydd yn rhaid i chi fod wedi dangos tystiolaeth o drallwysiad a ddarparwyd gan y GIG yng Nghymru cyn mis Medi 1991;
- Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o Hepatitis C a/neu haint HIV.

Os credwch y gallech fod yn gymwys i wneud cais am gymorth, cysylltwch â'r tîm ar 02921 500 900 neu e-bostiwch [wibss@wales.nhs.uk](mailto:wibss@wales.nhs.uk).

Mae Llywodraeth y DU yn sefydlu Cynllun lawndal Gwaed Heintiedig sengl i oruchwylio'r holl hawliadau iawndal perthnasol ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.

Wrth i'r gwaith i sefydlu'r cynllun sengl fynd rhagddo, bydd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn parhau i reoli'r gwasanaeth ac mae yno i'ch cefnogi. Dilynwch wefan WIBSS am ddiweddariadau pellach [yma](http://yma).

## Yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig

Mae'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig hefyd yn ariannu gwasanaeth cymorth cyfrinachol i unrhyw un yr effeithir arnynt gan driniaeth â gwaed neu gynhyrchion gwaed heintiedig. Mae hwn yn cael ei redeg gan dîm o'r Groes Goch Brydeinig sydd wedi bod yn gweithio gyda'r Ymchwiliad ers mis Medi 2018.

Gallwch gysylltu â'r gwasanaeth cymorth cyfrinachol yn uniongyrchol drwy ffonio 0800 458 9473 neu 0203 417 0280 ar yr adegau hyn:

- Dydd Llun rhwng 11am ac 1pm
- Dydd Mercher rhwng 7pm a 9pm
- Dydd Gwener rhwng 2pm a 4pm

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig [yma](http://yma).

## A ddylwn i barhau i roi gwaed?

Gwasanaeth Gwaed Cymru sy'n goruchwylio gwasanaethau yng Nghymru ac mae rhoi gwaed yn un o'r rhoddion mwyaf anhunanol y gallwch ei roi i berson arall.

Drwy roi gwaed, mae'n bosibl y byddwch yn achub bywydau ac yn helpu cleifion â chyflyrau penodol i wella a byw bywyd normal.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am roi gwaed ar wefan Gwasanaeth Gwaed Cymru [yma](http://yma).